# CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID
# LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL


| | |
|---|---|
| Clerc<br>*Clerk*<br>**Caroline Jones**<br>01248 602131<br>CyngorLlanllechid@ogwen.org | 26 Stryd Fawr<br>Bethesda<br>Gwynedd<br>LL57 3AE |


**Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd ar Zoom**
**ar nos Iau 21 Gorffennaf 2022 am 18.30**

**1. PRESENNOL:**

**Ward Llanllechid Isaf**
Y Cynghorydd Wyn Bowen Harries
Y Cynghorydd Alun Thomas
Y Cynghorydd Megan Tomos
Y Cynghorydd Geraint Hughes

**Ward Llanllechid Uchaf**
Y Cynghorydd Jên Morris
Y Cynghorydd Dafydd K Jones
Y Cynghorydd Kevin Williams

**Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd Y Cyng. Wyn Bowen Harries.**

**2. Ymddiheuriadau**
Y Cyng. Evan Jones, Y Cyng Lowri Evans , Y Cyng. Dafydd Meurig ac Y Cyng. Robin Williams.

**3. Cofnodion**
Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 9fed o Fehefin 2022.

**4. Materion yn codi o'r cofnodion**

**Twll yn y ffordd ger y Wern** –Wedi derbyn ebost gan Y Cyng. Dafydd Meurig 23/6/22. Does dim cynnydd wedi ei wneud gyda'r cynllun yma.
**Cysylltiad Fibreoptig** –Ymateb cyffredinol wedi ei dderbyn gan Lee Waters AS a Sian Gwenllian AS. Y Cyng. Megan Tomos wedi ail-gysylltu yn gofyn i gael cyfarfod.
**Llyn Bryn** –Y gwaith trwsio wedi ei chwblhau. Nid oedd Elis Jones (Carter Jonas) ar gael i fynychu'r cyfarfod yma.
**Arwyddion Maes y Groes –** Dim arwyddion wedi ei osod hyd yn hyn. Y Clerc wedi ebostio Ian Morgan, Cyngor Gwynedd i drefnu ymweliad safle gyda Cyng. Evan Jones. Dim ymateb hyd yn hyn.
**Datblygiadau Bronydd Isaf –** Dim diweddariad, nodwyd fod yr adran gorfodaeth yn hynod o brysur ar hyn o bryd a dim ond 2 aelod o staff yn delio gyda'r holl achosion yng Ngwynedd.
**Gardd Cymunedol** –Coryn Bye wedi newid y llechi am risgl coed fel y cytynwyd. Y fainc

wedi ei chwblhau.
**Ffordd Llwyn Bleddyn – cais am ddrych** –Y Clerc wedi gwneud cais i Gyngor Gwynedd 19/5/22 am ddrych ar y gornel - disgwyl ymateb.
**Pant Bowls –** Ebost wedi ei dderbyn gan Cyngor Gwynedd. *Mi wnaeth ein arolygwr ffyrdd ymweld â'r lleoliad ar y 13eg o Fai a chlirio ychydig ar geg y gylfat. Roedd yn nodi bod angen agor ychydig mwy arni ac o bosib glanhau drwyddi hefyd. Er bo'r gylfat i weld mewn cyflwr boddhaol, roedd un neu ddau o gerrig yn achosi rhwystr ynddi fydd angen ei dynnu allan. Roedd hefyd ychydig o sediment a malurion coed i weld wedi hel ynddi. Doedd dim problem i weld ochr yr arllwysfa. Mae gennym gontractwr (G-Mec) sydd wedi gwneud y math yma o waith i ni yn y gorffennol, felly byddwn yn trefnu cyfarfod gyda nhw i ddangos y gwaith iddynt. Gyda bwriad o gyflawni'r gwaith cyn tymor gwlyb y gaeaf.*
**Bryn Derwas –** Y Clerc wedi anfon sylwadau'r Cyng. Evan Jones ymlaen i Gyngor Gwynedd. Cyngor Gwynedd am wneud asesiad o'r lleoliad a chadarnhau os byddent yn darparu bin newydd yma.
**Llwybr Capel Gilfach fyny at Bronydd –** Y Clerc wedi rhannu rhif ffôn y Cyng. Alun Thomas gyda'r adran Llwybrau. Nodwyd fod dim cysylltiad hyd yn hyn.
**Prosiect Partneriaeth y Carneddau –** Dim diweddariad
**Gwaith adnewyddu ar y corlannau** - Y Cyng. Kevin Williams wedi cael glawad ffôn gan Dewi Roberts, Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn holi i gael cyfarfod. Disgwyl diweddariad.
**Cae Peldroed Talybont –** Ar yr agenda.
**Llwyn Bedw –** Adroddwyd fod rhifau 12 a 13 Llwyn Bedw o fewn ffin plwyf Bethesda ac felly yn talu treth y plwyf hwn, ond fod gweddill y stad ym mhlwyf Llanllechid. Y Clerc wedi cysylltu gyda'r Cynghorwyr Paul Rowlinson a Dafydd Meurig i holi am hanes y ffin, a pryd symudwyd y ffin hanesyddol. Y Clerc i gysylltu gyda Chyngor Gwynedd i drio cael gwybodaeth o'r archif.

## 5. Taliadau

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Julian Johnson | Torri gwair mis Mehefin | £235.00 |
| ROSPA | Archwiliad Cae Chwarae Talybont | £109.20 |

## 6. Archwiliad mewnol cyfrifon 2021-22

Yr Archwiliad Mewnol wedi ei gwblhau yn drylwyr gan Gyngor Gwynedd. Trafodwyd yr adroddiad a dderbyniwyd gan Gyngor Gwynedd. Yn dilyn barn yr Archwilydd, mae'r Cyngor yn ymrwymo i roi sylw i'r risgiau a chymryd camau priodol i'w lliniaru.

## 7. Ffurflen Flynyddol 2021-22

Penderfynwyd bod y Cyngor yn hapus i gymeradwyo'r ffurflen. Y Cadeirydd a'r Clerc i'w arwyddo.

## 8. Y Mynydd

Derbynwyd dyraniadau'r tîr comin. Y Cyng. Wyn Bowen Harries am fynd drwy'r dyraniadau.
Diolch i Richard Temple Morris am yr adroddiad flynyddol.

**9. Adroddiad Partnerneriaeth Ogwen**
Canmoliaeth i'r Adroddiad.
Y Clerc i wahodd aelod o Bartneriaeth Ogwen i gyfarfod mis Hydref i drafod prosiectau Partneriaeth Ogwen.

**10. Cae Chwarae Talybont**
Adroddwyd fod y cae mewn cyflwr drwg ac yn llawn chwyn. Y Clerc i wneud trefniadau i drîn y chwyn.
Y Cyng. Alun Thomas yn chwilio am brisiau 'container' i gadw offer.
Y Cyng. Geraint Hughes yn cytuno i fod ar yr Is-bwyllgor Cae Chwarae Talybont.
Y Cyng. Alun Thomas wedi cael pris am beiriant torri gwair - oddeutu £3000. Dim diweddariad.
Nodwyd y Cyng. Kevin Willimas ar ran y Cyng. Evan Jones, ei fod wedi awgrymu y gellid newid ffin y cae pêl-droed i ganiatáu mwy o leoedd parcio. Y Cyng. Alun Thomas am drafod hyn ymhellach gyda Stad Penrhyn. Dim diweddariad.

**11. Gohebiaeth**

**11.1** Eisteddfod Llyn ac Eifionydd 2023.
Y Cyng. Megan Tomos am fynychu y cyfarfod Pwyllgor codi arian nesaf.
**11.2** Adroddiad ROSPA Cae Chwarae Talybont
Codwyd yn yr adroddiad fod y 'chain link' ar y Carousel angen ei disodli. Y Cyng. Wyn Harries yn hapus i gyfarfod a chwmni atgyweirio yn y Cae Chwarae. Y Clerc i wneud ymchwiliadau.

**12. Adroddiadau gan Gynrychiolwyr**

Adroddwyd fod y Cyng. Jen Morris wedi mynychu'r cyfarfod Tim Rheoli Partneriaeth Ogwen lle drafwyd yr adroddiad.
Adroddwyd fod Y Cyng. Geraint Hughes wedi mynychu cyfarfod Llywodraethwyr Ysgol Llanllechid. Estyniad i'r ysgol ar y gweill. Y Cyng. Geraint Hughes am ddrafftio llythyr i'r Cynghorwyr Cyngor Sir lleol ac Adran Addysg Cyngor Sir Gwynedd i alw am ddefnyddio'r cyfle yma ar unwaith i hefyd wella mynediad i'r ysgol a'r ddarpariaeth parcio.

**13. Ceisiadau a phenderfyniadau Cynllunio**

**C20/0504/21/LL**
Tir ar Fferm Corbri, Llanllechid
Codi tŷ fforddiadwy un llawr, mynedfa, llecynnau parcio, tanc septig ynghyd â thanc cynaeafu dŵr
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C21/0078/21/CC**
Ogwen Bank, Bethesda

Torri a thocio coed sy'n destun gorchymyn gwarchod coed 3/TPO/GCC/17 (ail-gyflwyniad a diweddariad o gais rhif C20/0154/21/CC)
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C21/0099/21/CC**
Ogwen Bank, Bethesda
Mesurau i ddiogelu coed a gorchymyn coed arnynt yn ystod gwaith i uwchraddio'r parc carafanau
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C22/0464/21/cc**
8 Llwyn Bedw, Rachub, Bethesda
Torri coeden a gorchymyn gwarchod coed arni.
**Penderfyniad:** Caniatawyd gyda amodau

**Ceisiadau Cynllunio**

**NP3/21/LB61D**
Tan y Garth Cottage, Gerlan, Bethesda
Dymchwel Penty ac adeiladu estyniad unllawr ynghyd a gwaith mewnol mân. Cais Adeilad Rhestredig.
**Penderfyniad:** Dim Sylwadau
*Nodwyd for Y Cyng. Jên Morris wedi datgan diddordeb.*

**NP3/21/LB61C**
Tan y Garth Cottage, Gerlan, Bethesda
Dymchwel Penty ac adeiladu estyniad unllawr.
**Penderfyniad:** Dim Sylwadau
*Nodwyd for Y Cyng. Jên Morris wedi datgan diddordeb.*

**NP3/21/46F**
2 Tai'r Cae, Carneddi, Bethesda
Trosi a newid defnydd adeilad allanol gwledig i uned gwyliau hunanarlwyo tymor byr. Gosod offer trin carthion a chreu maes parcio i gerbydau.
**Penderfyniad:** Dim Sylwadau

**C22/0628/21/LL**
1 Maes y Groes, Talybont, Bangor
Dymchwel sied a modurdy presennol i adeiladu clinig asgwrn cefn deulawr ffrâm bren ar yr ôl troed presennol.
**Penderfyniad:** Y Cyngor yn gwrthwynebu oherwydd bod eisoes broblemau mynediad a thrafnidiaeth yn yr ardal. Hefyd bod dechrau rhedeg busnes mawr o'r fath sy'n gofyn am adeilad deulawr yn newid natur breswyl yr ardal.
Mae llifogydd yn y gorffennol wedi bod yn arwain at broblemau yn yr ardal yn arbennig o ran y carthffosiaeth.

**14. Materion Brys**

**14.1** Adroddwyd fod y bin baw ci wedi ei leoli yn agos iawn i'r fainc yn Sgwâr Llanllechid. Y Clerc i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd i holi os oes modd symud y bin.
**14.2** Ystad Llwyn Bedw wedi cael adolygiad cyfradd treth Cyngor yn ddiwethar. Ac fel canlyniad newidwyd y cyfradd. Y Clerc i holi gyda Cyngor Gwynedd os fydd yr hyn yn cael effaith ar cyfraddau treth Cyngor gweddill y plwyf.

**15. Adroddiad Llais Ogwan –** Penderfynwyd y bydd yr adroddiad nesaf yn cynnwys fod y gwaith trwsio oedd ei hangen yn Chwarel Bryn wedi ei chwblhau.
Mae trafodaethau dal yn mynd ymlaen ynglyn a Chae Peldroed Talybont, gyda pethau ymarferol yn digwydd.
Rhoddwyd croeso i gyhoeddiad diweddar i fuddsoddi mewn estyniad i Ysgol Gynradd Llanllechid. Cytunwyd i yrru llythyr ir Cynghorwyr Cyngor Sir lleol ac Adran Addysg Cyngor Sir Gwynedd i alw am ddefnyddio'r cyfle yma ar unwaith i hefyd wella mynediad i'r ysgol a'r ddarpariaeth parcio.
Canmoliaeth i Adroddiad Cynnydd Partneriaeth Ogwen, Gorffennaf 2022.